tafod elái

MAWRTH 2026

Rhif 405

£1

# Diolch Penri




Roedd nos Fawrth y 10fed o Chwefror yn noson arbennig yn hanes y Tafod. Er mai fel 'noson ail lansio'r Tafod' y cafodd ei hysbysebu, y gwir bwrpas oedd anrhydeddu Penri am fod yn olygydd y papur am gymaint o amser.

Bu wrth y llyw fel golygydd am 40 mlynedd – 'anhygoel' fel y dywedodd Cadeirydd newydd y Tafod, Helen Prosser, wrth gyflwyno llun arbennig iddo gan yr artist Anthony Evans.

Ymysg y gynulleidfa niferus yng Nghlwb y Bont, roedd ei ddwy ferch Llio ac Awen a'i ddwy wyres Gwen a Luned. Cawsom hanes difyr y 'slave labour' ganddyn nhw, pnawniau Sul yn gwylio rasus ceir fformiwla 1 ar y teledu tra'n plygu cannoedd o rifynnau'r papur.

Ddim yn aml y cewch chi Brif Lenor a Phrifardd dan yr unto yn talu gwrogaeth, ond dyna oedd yr hanes efo Eurgain Haf a Cyril Jones yn hael eu canmoliaeth. Fel un a fu'n olygydd papur bro Y Blewyn Glas am chwe blynedd, gwerthfawrogai Cyril ymdrech fawr Penri. Dyma englyn ardderchog ganddo:

> Am fod i'n Tafod fel tad a'i Gymraeg
>     trwy'i gamerâu'n siarad,
> ti haeddi dlws ymroddiad,
> a choron, glei, a chorn gwlad !

Cyfansoddodd Rhys Dafis gadwyn gwych o englynion hefyd ac fe'u fframiwyd a'u cyflwyno i Penri. Maen nhw i'w gweld ar dudalen 3.

Penri ei hun gafodd y gair olaf. Pwysleisiodd mai gwaith tîm oedd cynhyrchu'r papur a diolchodd i'r llu gohebwyr lleol, colofnwyr ac eraill am bob cefnogaeth. Diolchodd i Emlyn Davies, golygydd cyntaf a sylfaenydd y Tafod, a'r un rwan ddaeth i'r bwlch i gael criw at ei gilydd i wneud yn siwr o'i barhad. Talodd deyrnged hefyd i gefnogaeth Colin Williams, dosbarthwr y Tafod o'r cychwyn, oedd wastad ar gael ac yn barod i helpu.

## Diolch, Loreen



*Geraint Rees yn cyflwyno tusw mawr o flodau i Loreen Williams*

Ar yr un noson, wrth ddiolch i Penri, fe gyflwynwyd tusw mawr o flodau i Loreen Williams gan Geraint Rees. Roedd hynny ar ran trigolion Efail Isaf i nodi ei chyfraniad unigryw hithau i'r Tafod. Ychydig cyn y Dolig y rhoddodd y gorau i fod yn ohebydd y pentre ar ôl gwasanaeth anhygoel am 40 mlynedd. Yn fwy anhygoel fyth, yn y dyddiau uwch-dechnoleg presennol, fe gyflawnodd y cyfan mewn llawsysgrifen a chyda ffôn tŷ yn unig ! Mae Loreen yn parhau i ddosbarthu ac wedi gwneud hynny dros y cyfnod. Mae hi hefyd am ddiolch o galon i'w chyfeillion ym mhentref Efail Isaf 'am y tusw bendigedig.'

# tafod elái

## Swyddogion

**Cadeirydd:** Helen Prosser

**GOLYGYDD Y MIS**
**EIFION GLYN**

**Ysgrifennydd a Thrysorydd:**
Penri Williams

**Cysodi/ Dylunio:** Eirian Hughes

**Dosbarthwr:**
Colin Williams
029 2089 0040

Tafod Elái ar y we
www.tafodelai.cymru

Argraffwyr
EVAN PRINT
www.evanprint.co.uk

Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru

(Nid yw'r safbwyntiau yn y papur o reidrwydd yn adlewyrchu barn y panel golygyddol).


Erthyglau a straeon
ar gyfer rhifyn mis Mawrth
i gyrraedd erbyn
**20 Mawrth 2026**
at
**gol@tafodelai.cymru**

**Golygydd Mis Mawrth:**
**Gerwyn Williams**


# GOLYGYDDOL

Mewn cyfnod pan mae'r byd ar y dibyn efo'r holl ryfeloedd a checru, roedd hi'n hyfryd cael ein hatgoffa o bwysigrwydd brawdoliaeth yn y sioe un dyn am y bardd a'r heddychwr Waldo yng Nghlwb y Bont yn ddiweddar. Os ydi brawdoliaeth ar encil yn fyd-eang, gwych fyddai gweld grymuso y berthynas gymdogol rhwng pobol a'i gilydd mewn cymdeithasau fel ein cymuned ni. Ac mae gan bapurau bro fel y Tafod rôl bwysig i'r perwyl yma.

Un o arwyr Waldo oedd Gandhi. Ac yn y sioe, dyfynwyd yr hyn ddywedodd y gŵr mawr o'r India wrth y bardd Tagore – 'rhowch i mi weithredoedd nid geiriau.'

A hithau'n fis Mawrth, mis cofio Dewi Sant, da ydi atgoffa ein hunain o neges syml ein nawddsant – 'gwnewch y pethau bychain.' **Gwnewch** ydi'r gair gweithredol.

Yn hynny o beth does yna ddim enghraifft well na'r tri ar y dudalen flaen. Am 40 mlynedd bu Penri wrthi yn ddyfal yn golygu'r Tafod. A wnaeth o ddim cyfyngu ei hun i faes y papur bro. Mewn amryw gylchoedd eraill roedd yn barod i roi ei ysgwydd dan y baich yn ddistaw a dirwgnach. Y mae'r un peth yn wir yn hanes Loreen yn yr Efail Isaf ac yn yr un llinach mae Cadeirydd newydd y Tafod. Does ond rhaid i ni sôn am Steddfod y canrifoedd – Pontypridd 2024 ! Penri, Loreen a Helen – 'da chi'n siampl i ni gyd.



# Pwy wyt ti?



*Nia Williams*

### Cyflwyna dy hun mewn pum brawddeg?

1. Yn enedigol o Langollen ond wedi fy magu yng Ngheredigion - sir ore Cymru! Cyfnod byr yn byw yng Nghydweli, oherwydd gwaith fy nhad a gweddill fy mywyd ym Mhontypridd a Creigiau.
2. Wedi hen ymddeol 'rôl blynyddoedd hapus o ddysgu - plant ac oedolion!
3. Mwynhau bywyd! Dwlu ar gwmni cyfeillion da dros goffi, dros lasied, dros bryd o fwyd da!
4. Caru cerddoriaeth – Queen, Verdi, Elton John, Stones, Mozart, Elvis, John Williams.
5. Caru chwaraeon – tennis, athletau … a cheffylau – cobiau. Caru crefft a chrwydro'r byd!

**Ble a sut wyt ti'n defnyddio dy Gymraeg yn yr ardal?**

Byw fy mywyd drwy gyfrwng y Gymraeg. Yn fy nghapel, y Clwb Rygbi, caffis, bwytai, Clwb y Dwrlyn, Merched y Wawr, clybiau Pont (Bridge) a Dorcas!

**A ble arall bydd pobl yn ffeindio Nia Williams yn yr ardal, e.e. caffis, siopa?**

Ble arall?!! Mas bob dydd! Felly anodd! Casáu siopa! Hoffi mynychu digwyddiadau yn Gartholwg, a gigs yn y Lib Club, Treganna, Acapela a'r Earl Haig a chyfarfodydd Cylch Cadwgan.

**Pa gyngor faset ti'n ei roi i siaradwyr Cymraeg yn yr ardal?**

Defnyddiwch hynny o Gymraeg sy' gennych yn hyderus - nawr ac ar bob cyfle! 'Sdim ots os yw'n frith o eiriau Saesneg! Mynychwch gymaint o ddigwyddiadau Cymraeg/Cymreig ag y medrwch. Ymunwch â Chlwb y Dwrlyn, Merched y Wawr, côr lleol, Capel y Tabernacl - digonedd o gyfleoedd!


**Ewch amdani!**


Gwasanaeth addurno, peintio a phapuro

**Andrew Reeves**

Gwasanaeth lleol ar gyfer eich cartref neu fusnes

Ffoniwch
**01443 407442**
neu
**07956 024930**
i gael pris am unrhyw waith addurno



## Gochelwch Olygyddion ! Ifan Roberts

Beiwch y noson “Diolch i Penri” yng Nghlwb y Bont. Beiwch Eurgain Haf am atgoffa pawb am fy nhuedd i gyfaddef rhai gwendidau’n gyhoeddus. Tybiais fod angen i olygyddion y Tafod newydd gael gwybod am ambell gam gwag allai ddod i’w rhan. Cystal cyfaddef hefyd mai dim ond profiad o ddeng mlynedd gefais i – a hynny’n aml yn cael ei rannu â thri arall yn ein tŷ ni unwaith y mis.

Ond erys rhai egwyddorion. Olygyddion newydd - gochelwch, da chi, rhag y canlynol:

**Peidiwch datgelu eich cyfeiriad cartref** – nac ychwaith, erbyn hyn, unrhyw fodd o gysylltu â chi ar y cyfryngau cymdeithasol. Dyma’r ffordd i osgoi cael y cocosfardd lleol yn curo ar eich drws i holi pam fod “Y Golofn Farddol” wedi anwybyddu ei gampwaith.

**Peidiwch byw rhy agos i achwynwyr teuluol a chyfagos.** Cefais bryd mileinig o dafod gan berthynas drwy briodas, oedd yn byw o fewn tafliad carreg, am na fawrygwyd gwaith ei brawd yn ddigonol wedi iddo gyhoeddi cyfrol o luniau hanesyddol o’r ardal. Yn wylaidd, bu raid i mi ei goleuo na soniwyd gair yn y Papur Bro fod yr archifdy lleol mewn ymrafael cyfreithiol â theulu’r ffotograffydd, gan nad oedd y brawd wedi sicrhau’r hawl i’w cyhoeddi.

**Peidiwch ceisio newid pethau’n ormodol pan fo’r wasg ar fin troi!** Gwn fod yr oes ddigidol wedi newid pethau’n syfrdanol ers cyfnod fy neng-mlwydd i. Ond ceisiwch ddychmygu’r oes honno. Roedd ein banciwr o drysorydd wedi taro bargen i argraffu’n rhatach ar Ynys Môn, tra digwyddai’r cysodi ar y tir mawr yn Arfon – ugain milltir i ffwrdd. Rhwng y cysodi a’r argraffu bu datblygiad oedd yn deilwng o fod yn “stori flaen” a cheisiais egluro i’r argraffydd bod angen newid y llun a’r stori flaen wreiddiol i nodi bod gennym bellach gysylltiad (drwy briodas) â’r Gymuned Ewropeaidd ym Mrwsel. Y llun blaenorol ar ein tudalen flaen oedd enillydd y Carnifal am wisg ffansi – gwraig leol wedi ei gwisgo fel cardotyn blêr, barfog. Gwyddoch yr ateb. Do, cyhoeddwyd yr erthygl a’r pennawd newydd – ond ni newidiwyd y llun. Plygwyd 500 rhifyn un nos Fercher heb i neb herio hynny.

## Englynion Rhys Dafis i Penri

Ni fu taw ar dy Dafod di! - rhannodd
gyfrinach pob stori;
rhoi’n hanes â graen inni,
dweud a’n gwneud ein deugain ni.

O’r Hendre, bob mis, doi hisian a sbarcs.
nes bod y tŷ cyfa’n
megino mwg yn y man;
roedd o fel Aberddawan!

Cofnodi’n bro; rhoi rhwng cloriau gynnwys
cannoedd o rifynnau,
hynt bro i gyd heb air gau;
drôr ei chof yw d’archifau.

A chei’n awr ein diolch ni am hynod
o gymwynas, Penri;
am ddiwydrwydd holl flwyddi
dy ofal dihafal di.

Y CYMRO
Tanysgrifiwch i’r Cymro
Tanysgrifiwch i dderbyn papur Y Cymro drwy’r post bob mis am £39 y flwyddyn neu fel PDF drwy e-bost bob mis am £15 y flwyddyn.
Cysylltwch gyda
tanysgrifio@ycymro.cymru
i drefnu



## CYLCH CADWGAN

**HEFIN MATHIAS**
**yn siarad am**
**“Lloyd George”**

**8yh, Nos Wener**
**13 Mawrth 2026**
**Bethlehem, Gwaelod y Garth**

Mynediad drwy Aelodaeth £15
neu £5 i ymwelwyr
**Manylion pellach:**
clwbydwrlyn@pentyrch.cymru

HELEDD FYCHAN
Aelod o’r Senedd dros Ganol De Cymru
01443 853214
Heledd.Fychan@Senedd.Cymru
2 High Street, Pontypridd, CF37 1QJ
Heledd Fychan AS / MS
@Heledd_Plaid
@Heledd_Plaid
Plaid Cymru Party of Wales
Senedd Cymru Welsh Parliament


# Eluned Davies-Scott
# Colofn Blasus a Iachus



*Seleriac*

## Hyll, cnapiog a braidd yn fwystfil

'Efallai ei fod yn edrych fel llysieuyn hyll, cnapiog, siâp rhyfedd, ond i mi, mae'n beth hardd' meddai Raymond Blanc. 'Braidd yn fwystfil i edrych arno' meddai'r awdur bwyd Anna Jones. Dyma y seleriac. Er ei fod yn llysieuyn eithaf rhyfedd ei olwg mae ganddo gnawd gwyn hufennog gyda blas melys, cnauog, sawrus. Mewn gwirionedd, mae'n amlbwrpas iawn ac, yn fy marn i, yn llysieuyn sy'n haeddu lle ym mhob cegin. Ar gael o tua mis Hydref hyd at fis Mawrth, mae'n ychwanegiad perffaith at ein dewis o lysiau gaeaf.



*Seleriac amrwd*



*Seleriac wedi ei goginio*

Mae'n tyfu ledled y byd ac yn boblogaidd mewn bwydydd Gogledd Affrica, De America ac Ewrop. Mae seleriac a seleri yn perthyn yn agos i'w gilydd o'r un rhywogaeth (Apium graveolens) ac yn rhan o'r un teulu botanegol â phersli, pannas a moron. Er iddo ddod yn boblogaidd yn Ewrop, am ryw reswm nid yw erioed wedi gwneud llawer o gynnydd mewn gwledydd Saesneg eu hiaith.

Mae seleriac yn uchel mewn ffibr, potasiwm, magnesiwm a fitaminau B6 a K. Gan ei fod yn is mewn carbohydradau na thatws, mae'n boblogaidd mewn ryseitiau carb-isel a rhai diabetig.

Yn fwy amlbwrpas na seleri, gellir ei rostio, berwi, stemio, stwnsio, ei wneud yn biwrî a hyd yn oed ei gratio'n amrwd i mewn i saladau. I baratoi eich seleriac, pliciwch ef yn drwchus i gael gwared ar unrhyw arlliwiau gwyrdd o amgylch yr ymyl ac unrhyw weddillion mwdlyd. Bydd yn newid lliw os gadewir y cnawd wedi'i blicio yn agored i aer felly defnyddiwch ar unwaith neu trochwch mewn dŵr oer gyda sudd lemwn os am ei ddefnyddio'n ddiweddarach.

Mae llu o ryseitiau ar gael i chi roi cynnig arnyn nhw ar wefannau ac mewn llyfrau coginio a dyma rai awgrymiadau. Os nad ydych chi wedi rhoi cynnig arni, dechreuwch trwy ferwi a chymysgu i mewn i gawl gyda blasau ychwanegol fel bacwn, pancetta, afalau neu genhinen. Mae gan Anna Jones rysáit flasus sy'n defnyddio afalau a theim, cnau cyll a saets crensiog tra bod James Martin yn defnyddio cnau Ffrengig a pancetta yn ei rysáit cawl. Mae gan Nigel Slater, Jose Pizarro a Nigella Lawson rysetiau gwerth chweil.

Ffefryn Yotam Ottolenghi yw ei ddefnyddio fel prif gwrs wedi'i rostio gyda chnau cyll, corbys puy, teim, mintys a dail bae. Dwi wedi defnyddio rysáit Gordon Ramsey sydd â pancetta, moron, bresych a hufen dwbl gyda'r seleriac - ardderchog gyda chig carw. Beth am roi tro ar ei weini gyda chyw iar fel yn rysáit Tom Kerridge sy'n ei gynnwys gyda llysiau gaeaf eraill, teim, rhosmari, hadau ffenigl, anis seren a phupur du mewn caserol cyw iâr?

Yn amrwd, mae seleriac yn ychwanegiad crensiog ardderchog i saladau. Fe'i defnyddir yn fwyaf enwog yn y Rémoulade Seleriac clasurol Ffrengig lle mae'n cael ei gymysgu â dresin mayonnaise hufennog a mwstard i'w weini gyda bwyd môr. Mae gan Jamie Oliver rysáit dda hefyd. Mae digon o ryseitiau ar gyfer cefnogwyr y Ffriwr Aer hefyd gan gynnwys gratin seleriac, sglodion, ciwbiau a seleriac rhost cyfan.

Wedi'r holl syniadau hyn efallai ei bod hi'n bryd ychwanegu'r llysieuyn danbrisiedig ond amlbwrpas hwn at eich rhestr siopa.



*Seleriac rhost*



*Cawl seleriac*



*Seleriac Nigella Lawson*

## Crys Melyn y Tour i Alun Wyn

Yn ymarfer olaf Côr Meibion Taf cyn y Nadolig cafwyd tipyn o syrpreis!! Agorodd y drws a phwy ddaeth i mewn ond Rhodri Gomer, y cyn seren rygbi a'r darlledwr hynaws. Gan fod y côr yn tyfu'n wythnosol bron, tybiai'r aelodau taw tenor neu fas newydd ydoedd.

Ond na. Torrodd ar draws y canu i ofyn am funud neu ddwy o amser y côr i anrhydeddu un o'r aelodau am ei gyfraniad hir i ddarllediadau Cwmni Tinopolis o'r Tour de France. Cyflwynwyd crys arbennig wedi'i arwyddo gan Geraint Thomas ei hun ac wedi'i fframio'n gelfydd. Mae perthynas agos rhwng y côr a Geraint gan fod ei dad yng nghyfraith yn aelod swynol dros ben ac yn aml, ar achlysuron anffurfiol, yn arwain y bechgyn yn frwdfrydig wrth ganu'r clasur, Titw Tomos.

Yn dilyn teyrnged hyfryd Rhodri, cododd Alun ar ei draed i gydnabod y rhodd. Yn ei ddull dihafal rhannodd ei hanes ynghlwm â'r campau. Roedd ei eiriau teimladwy o'r frest yn hynod gofiadwy ac aelodau'r côr yn rhannu'i foddhad a'i werthfawrogiad.




*Alun Wyn Bevan  a Rhodri Gomer*

## ADOLYGIAD

Chydig yn betrusgar oeddwn wrth anelu am  Glwb y Bont i weld cynhyrchiad diweddaraf cwmni Mewn Cymeriad o'r sioe un dyn 'Waldo'. Cystal i mi gyfadde mai fel 'bardd tywyll' y meddyliwn am Waldo.

Ro'n i wedi clywed amryw o'n beirniaid llenyddol yn telynegu am ei fawredd ac mai 'Mewn Dau Gae' oedd un o gerddi mwya yr ugeinfed ganrif. Ella mod i'n dwp, ond fedrwn i wneud na rhych na gwellt ohoni. A doedd y 'switjys'  fawr o help.

O'n, ro'n i yn gynefin â rhai o'i gerddi eraill mwy hiraethus fel 'Cofio' a 'Tangnefeddwyr'. Ond rywsut neu'i gilydd, wnes i erioed geisio ymaflyd â'i gerddi 'tywyll.'

Wnes i erioed chwaith feddwl am Ryland Teifi, oedd yn portreadu'r bardd, fel actor. I mi canwr tra soniarus oedd o. Ond o'r eiliad pan droediodd y llwyfan, mi ddiflannoddi yr amheuon a ches fy swyno gan ei berfformiad ysgubol.

Mi ddyliai'r hen Domos ynddo i fod wedi gwybod yn well. Dydi Mererid Hopwood yn gollwng dim o'i dwylo os nad oes oes sglein arno. Ac mae'r un peth yn wir am sylfaenydd cwmni *Mewn Cymeriad,* Eleri Twynog. Rhaid llongyfarch hefyd waith cyfarwyddwraig y sioe Janet Aethwy.

Plaen ac ymarferol oedd y set - beic, desg, cadair a chydig o drugareddau bychain eraill. Ond roedd y cyfan i bwrpas. Roedd y sgript y tu hwnt o glyfar yn plethu peth o'i gerddi gyda hanes ei fywyd o'r llon i'r lleddf – llawer o'r lleddf oherwydd y trasiedïau personol a wynebodd. Duw yn unig a wyr sut y cofiodd



*Ryland Teifi*

Ryland Teifi yr holl goflaid. Ond mi wnaeth, a hynny yn ogoneddus.

Oedd, roedd hi'n sioe a hanner ac mi a i ati rwan, yn unol â gobaith yr awdur yn y rhaglen gain a gynhyrchwyd, i geisio gwneud iawn am fy anwybodaeth a chynefino mwy â bywyd a gwaith un o'n beirdd mwya.

**Eifion Glyn**

# MENTER IAITH Rhondda Cynon Taf

## Pwy yw eich Menter Iaith?

### Dewch i nabod staff a phwyllgor rheoli Menter Iaith RhCT!

**Enw**: Osian Rowlands

**O ble ti'n dod a ble ti'n byw?**
Wedi fy magu yng Nghaerffili, addysgu yn Ysgol Ifor Bach Senghennydd ac Ysgol Gyfun Rhydfelen. Treuliais dair blynedd yn Aberystwyth, wedyn rhyw wyth mlynedd yng Nghaerdydd, ac erbyn hyn rwy'n ôl yng Nghaerffili gyda Fflur, Dewi a Betsan.

**Swydd**: Prif Weithredwr Menter Iaith Rhondda Cynon Taf

**Cynnwys y gwaith:**
Cynnal cyfarfodydd gyda phartneriaid a sefydliadau lleol, arwain a chefnogi staff ar draws prosiectau'r Fenter, ac edrych am gyfleoedd i greu a chryfhau mentrau newydd. Rwy'n cefnogi digwyddiadau a lleoliadau fel Yr Hen Lyfrgell, Clwb y Bont (dwi'n is-gadeirydd), Gŵyl Mabon, Eisteddfod y Rhondda a Phontypridd a Tafod Elai.



*Osian Rowlands*

Rwy'n gyfrifol am Parti Ponty, Parti Pwll Ponty a wythnos o weithgareddau Cymraeg ledled y Sir, ac yn aelod o Fwrdd Mentrau Iaith Cymru.

**Beth ti'n fwynhau?**
Arwain tîm brwdfrydig sy'n gwneud gwahaniaeth ac yn cynyddu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg.

**Hoff bethau:**
Fy nheulu - mae Dewi a Betsan yn ein cadw'n brysur, a Fflur mor drefnus ac amyneddgar. Rygbi (cefnogwr y Sgarlets ac yn hyfforddi CRICC dan 12), cymdeithasu, gigs Clwb y Bont a gwyliau cerddoriaeth. Yn fy amser sbâr rwy'n arwain C.O.R, sy'n codi arian ar hyn o bryd i Eisteddfod Bro'r Wenynen 2027. Os hoffech chi gefnogi drwy rodd neu noddi gwobr, cysylltwch!

**Cas bethau:**
Sefyllfa'r Gweilch, ffilmiau arswyd (dwi'n cuddio tu ôl i'r clustog!), ond fel arall rwy'n trio gweld y gorau ym mhawb ac yn obeithiol y bydd Cymru a'r Sgarlets yn ennill!

Mae'r Mentrau Iaith wedi eu sefydlu gan bobl fel chi sy'n angerddol am y Gymraeg a'u cymunedau. Mae gan bob Menter Iaith fwrdd cyfarwyddwyr sy'n arwain gwaith y fenter yn wirfoddol. Trwy fod yn rhan o'r bwrdd rydych chi'n medru helpu datblygu'r Fenter Iaith yn eich ardal chi.

Os oes diddordeb gyda chi mewn dod yn aelod o'r bwrdd, cysylltwch â ni!

osianrowlands@menteriaith.cymru

### Yn dilyn noson Cylch Cadwgan dyma fanylion arddangosfa gelf Anthony ac Aron Evans

"TRAWS CAMBRIA"

GWAITH NEWYDD

ARON ac ANTHONY EVANS

Chwefror 17 – Mawrth 14

AGORIAD SWYDDOGOL

SADWRN, MAWRTH 7
2.00pm – 5.00pm

ORIEL AR AGOR
MAWRTH - GWENER
1.00pm – 4.00pm

SADWRN
10.30am 4.00pm



Oriel Canfas
44a Glamorgan Street
Treganna
CF5 1QS



# Cylch Cinio Caerdydd.

## ANGOR NEWYDDION S4C



*Rhodri Llywelyn a Carys Tudor Williams, Cadeirydd y Cylch Cinio*

Er mai Cylch Cinio Cymraeg Caerdydd ydy'r enw swyddogol, mae'r ciniawa misol yng ngwesty'r **New House** yn denu llawer iawn o drigolion o ddalgylch Tafod Elái, ac yn gyfle i ffrindiau gymdeithasu dros bryd o fwyd y tu allan i'w cylchoedd arferol. Y darlledwr Rhodri Llywelyn oedd ein siaradwr gwadd ddechrau mis Chwefror, a rhoes deyrnged loyw i'r ysgolion a roddodd brofiadau gwerthfawr iddo pan yn ifanc. Wedi graddio mewn daearyddiaeth o brifysgol Bryste, cafodd gyfle i fwrw prentisiaeth gyda chwmni Agenda gynt (Tinopolis heddiw) lle bu'n hogi ei sgiliau ym maes newyddiaduraeth chwaraeon yn Llanelli. Yna, ymunodd â'r BBC yn Llandaf ac yn fuan daeth yn un o brif gyflwynwyr Newyddion S4C yn ogystal â chyflwyno amryfal raglenni ar Radio Cymru.

Yn ystod ei sgwrs, nododd Rhodri fod Newyddion S4C yn anelu'n uchel drwy ymhél â straeon lleol, cenedlaethol, Prydeinig a rhyngwladol, sy'n dipyn o dasg. Mae'n credu bod Cymry Cymraeg yn haeddu cael clywed am newyddion y byd yn eu mamiaith. Cawsom weld darnau o'i adroddiadau o Wcráin a Thwrci, ac yn nes adre, adroddiad a ddarlledwyd ddegawd wedi trychineb Glofa'r Gleision ger Pontardawe. Gallem weld drosom ni ein hunain fel 'roedd adrodd straeon, dangos lluniau llawn tristwch ac eiliadau o ddistawrwydd, yn gallu cael effaith pellgyrhaeddol arnom; ar adegau mae llun yn werth mil o eiriau.

Soniodd am y tensiwn moesol a all godi mewn sefyllfaoedd anodd, a bod gohebydd profiadol yn gwybod pryd y dylid camu'n ôl o sefyllfa ingol a pharchu urddas pobl sy'n dioddef.

Mae Rhodri yn amlwg wrth ei fodd yn ei waith, er iddo gyfaddef, petai galwad i chwarae mewn band, neu ar gae o bwys, byddai'r temtasiwn yn fawr! Tan y digwydd hynny mae'n sicr fod ganddo'r swydd orau yn y byd!

Bydd ein dathliad ar Fawrth 9fed yn cyplysu pen-blwydd y Cylch Cinio yn 75 mlwydd oed a dathlu ein nawddsant, ac mae croeso mawr i bawb ymuno â ni ar gyfer gweddill rhaglen y tymor. Os hoffech wybod rhagor, cysylltwch â Paul Morgan ar cylch.cinio@gmail.com



## Pwy wyt ti?



## Phillip Vaughan
## Cyflwyna dy hun mewn pum brawddeg?

1. Ces i fy magu yn Sir Benfro.
2. Astudiais y gyfraith ym Mhrifysgol Rhydychen ac o'n i'n gweithio fel cyfreithiwr masnachol cyn ymddeol deng mlynedd yn ôl.
3. Dw i'n briod â Andrea ac mae dau o blant gyda ni, Rob a Megan sydd yn byw a gweithio yn Llundain.
4. Mae fy niddordebau yn cynnwys chwaraeon, yn enwedig pêl-droed a rygbi, chwarae golff, bwyta mas (fy hoff dŷ bwyta yng Nghymru yw The Beachhouse ym Mae Oxwich), cerdded (yn enwedig llwybr arfordirol Sir Benfro) a darllen.
5. Cefnogwr brwdfrydig pêl-droed a rygbi Cymru ydw i ac es i i Qatar i gefnogi Cymru yng Nghwpan y Byd ond dw i mor ddigalon am gyflwr rygbi Cymru ar hyn o bryd.

**Sut wyt ti wedi dysgu Cymraeg?**

Dechreuais i ddysgu Cymraeg ar ôl ymddeol. Cyn hynny doedd dim Cymraeg gyda fi. Doedd dim Cymraeg yn yr ysgol yn Sir Benfro yn y saithdegau. Gwnes i gwrs dwys gyda Prifysgol De Cymru. Ro'n i'n mynd i ddosbarthiadau deirgwaith yr wythnos. Roedd y cwrs yn ardderchog a dw i mor ddiolchgar i'r tiwtoriaid. Ro'n i'n lwcus. Mae ffrindiau a chymdogion 'da fi sy'n siarad Cymraeg a ro'n nhw'n gefnogol iawn. Ces i gyfle ddwywaith i wneud cwrs yn Nant Gwrtheyrn, lle arbennig. Tafarn wych yw Tafarn y Fic!

**Ble rwyt ti'n cael cyfle i ddefnyddio dy Gymraeg yn yr ardal?**

Dw i'n lwcus achos ffrindiau a chymdogion sy'n siarad Cymraeg a felly llawer o gyfleoedd i ddefnyddio'r iaith. Gwrando ar Radio Cymru. Gwnes i gyfweliad ar Radio Cymru am bwnc dysgu Cymraeg. Gwylio S4C yn enwedig chwaraeon. Darllen – cylchgronau Golwg a Barn. Ar hyn o bryd dw i'n darllen casgliad o straeon byrion – 'Pelydrau'.

**A ble arall bydd pobl yn ffeindio Philip Vaughan yn yr ardal, e.e. caffis, siopau?**

Clwb Golff Creigiau. Fi'n caru golff ond fydda i ddim yn chwarae yn y Ryder Cup neu y Meistri. Cerdded ar y Garth neu yn y lonydd. Tafarn The Kings ym Mhentyrch.

**Os byddwch chi'n gweld Philip yn yr ardal, cofiwch ddweud 'helô' a chael sgwrs.**

# CAPEL BETHLEHEM
## Gwaelod-y-Garth

**Rhodri-Gwynn Jones**



## Diolch i Utrecht am ein 'capel'

Bûm yn yr Iseldiroedd yn ystod y mis bach i ymweld â chyfeillion. A chan eu bod yn byw mewn tref fechan yn agos at ddinas Utrecht, roedd yna ddisgwyl y byddem yn ymweld â'r lle hwnnw cyn troi tua thre'.



*Llun: Tŵr Eglwys Sant Martin, Utrecht*

Mae'r ddinas yn cael ei chyfrif fel y bedwaredd o ddinasoedd y wlad o ran ei phoblogaeth (ychydig yn fwy na phoblogaeth Caerdydd), a phrifysgol Utrecht yw'r fwyaf yn y wlad.  Mae'n un o ddinasoedd hynaf y wlad, ac fe'i sefydlwyd gan y Rhufeiniaid tua 50 OC. Yma hefyd y mae Archesgob Catholig yr Iseldiroedd wedi ei leoli.

Yn ddi-os, un o brif atyniadau'r ddinas yw Tŵr yr Eglwys Gadeiriol – Eglwys Gadeiriol Sant Martin (*Dom van Utrecht* / *Domkerk* yn yr iaith frodorol). Saif yn urddasol (112 metr o uchder) yn gofadail i ganrifoedd o grefydd, pensaernïaeth a hanes arwyddocaol – gellir olrhain cychwyniad yr eglwys mor bell yn ôl â'r 7fed ganrif.

Eglwys Gatholig oedd hi'n wreiddiol, ond yn dilyn y Diwygiad Protestanaidd yn yr unfed ganrif ar bymtheg, fe'i trosglwyddwyd i'r Calfiniaid fel Eglwys Brotestanaidd. Fe ddinistrwyd rhan o'r eglwys gan dornado ar Awst y 1af 1674, a bu'r rwbel yn gorwedd yno ar y llawr heb ei symud am y ddwy ganrif ddilynol! Erbyn hyn mae'r cyfan wedi ei glirio, a sgwâr awyr-agored chwaethus wedi ei ddatblygu, er budd y trigolion a'r ymwelwyr, rhwng y tŵr a gweddill yr eglwys.

Ymhyfryda'r trigolion fod yr eglwys yn gymaint mwy nag adeilad hanesyddol – maentumir ganddynt ei fod yn symbol o ddyfalbarhad, o gelfyddyd ac o ffydd – ac yn rhan annatod o hunaniaeth y ddinas – dyma iddynt lle gorwedd calon Utrecht. Cynhwyswyd y lle ar restr Safleoedd Treftadaeth y Byd yn 2022.

A ninnau yma yng Nghymru newydd ddathlu dydd Gŵyl Dewi Sant, mae'n ddiddorol mai eglwys wedi ei chysegru i *Sant Martin* (*316/336 - 397 OC*) o *Tours* yw hi. Ef oedd trydydd Esgob Tours yn Ffrainc (cysegrwyd yn 371OC), ac fe gafodd droedigaeth at Gristnogaeth pan yn ŵr ifanc.

Sant Martin yw nawddsant cardotwyr, gwehyddion gwlân, teilwriaid, gwyddau, gwinwyr, tafarnwyr a Ffrainc, a dethlir ei Ddydd Gŵyl ar yr 11eg o Dachwedd.  Cysylltir ei Ddydd Gŵyl gydag ymddangosiad Cŵn Annwn a Gwyn ap Nudd, brenin y Tylwyth Teg. Ac mae hen goel yn bodoli, os clywir y dylluan yn hwtian ar y dydd hwn yna bydd trychineb yn digwydd yn y cylch, ond os gwelid seren wib, yna byddai'n drychineb ar yr holl wlad!

Fe'i cysylltir orau â'r hanes yma:

Roedd yna filwr ym myddin y Rhufeiniaid yng ngwlad Gaul (Ffrainc heddiw) pan gafodd weledigaeth.

Roedd gerllaw mynedfa i ddinas Amiens pan gyfarfu â chardotyn heb fawr o ddillad amdano. Ar amrant fe dorrodd ei glogyn yn ei hanner gyda'i gleddyf a'i rannu â'r gŵr. Y noson honno fe freuddwydiodd fod Iesu Grist yn gwisgo hanner y clogyn a roddodd i'r gŵr carpiog, a chlywodd ef yn yngan wrth rai o'r angylion *"er fod Martin o hyd yn dysgu amdanaf, fe roes ei glogyn i mi"*. Bu'r freuddwyd yn ddigon i'w drawsnewid ac fe'i bedyddiwyd pan yn 18 mlwydd oed.

*Parhad ar dudalen 9*

## Capel Bethlehem Gwaelod-y-Garth
(parhad)

Fe gadwyd ei hanner ef o’r clogyn yn *Abaty Marmoutier* ger Tours. Gelwid yr offeiriad a ofalai am y clogyn yn yr Abaty yn “*cappellanu*”, ac yn ei dro gelwid pob offeiriad a weinyddai’r milwyr yn “*cappellani*” - a dyna wreiddyn yr enw Saesneg “*chaplain*” – “caplan” i ni’r Cymry.

Gelwid yr adeilad bychan a gynhwysai’r crair yn “*cappella*”, y gair am glogyn bychan, a hynny yn ei dro yn rhoi cychwyn ar alw eglwysi bychain (israddol i’r fam-eglwys, yn ôl Geiriadur Prifysgol Cymru) yn “*chapels*”.

Diolch felly am ysbaid yn yr Iseldiroedd, ac i’n cyfeillion yno am ein tywys i ddinas Utrecht a’n hysgogi i ddysgu mwy am Sant Martin. A diolch iddo yntau a’i hanner clogyn am roi i ni, mewn ffordd o siarad, **Gapel** Bethlehem, Gwaelod-y-garth, a phob capel arall yng Nghymru a thu hwnt!



*Llun: Sant Martin yn diosg ei glogyn gan Jean*

### Trefn yr Oedfaon a’r Ysgol Sul (am 10:30 a.m. oni nodir yn wahanol):

Mis Mawrth 2026:

1 – Oedfa Gŵyl Dewi yr Ysgol Sul

8 – Oedfa Gymun dan ofal Delwyn Siôn

15 – Sul y Cyfundeb (i’w gadarnhau)

22 – Oedfa dan ofal y Parchedig Aled Edwards

29 – Oedfa dan ofal Cymdeithas Bethlehem

Mis Ebrill 2026:

3 – Oedfa Gwener y Groglith dan ofal Ian Hughes [am 10:00 a.m.]

5 – Sul y Pasg: Oedfa Gymun dan ofal Delwyn Siôn

12 – Sul y Pasg Bach: I’w drefnu

19 – Oedfa dan ofal y Parchedig Denzil John

26 – Oedfa dan ofal Gwilym Williams

## TONYREFAIL

**Gohebydd Lleol:**
**Helen Prosser**

### Grŵp ukuleles

Mae grŵp ukuleles Tonyrefail, sy’n cyfarfod amser te bob dydd Iau, yn mynd o nerth i nerth. I ddathlu Dydd Miwsig Cymru, buon nhw’n diddanu’r criw mawr o ddysgwyr sy’n cwrdd yn Yr Hen Lyfrgell yn y Porth bob bore Gwener. Mae’r arweinydd Jennie a dwy arall o’r grŵp, sef Ann a Marie, hefyd yn aelodau o’r Grŵp Sgwrsio Cymraeg sy’n cwrdd bob yn ail ddydd Mawrth am 12.30pm yng nghaffi ‘Ar Ben y Byd’.

## CLWB RYGBI PENTYRCH

**Huw Llewelyn Davies**

### Rygbi dydd Sadwrn 7 Mawrth

Mae Clwb Rygbi Pentyrch yn chware yn erbyn Clwb Rygbi Cymry Caerdydd ar Barc y Dwrlyn, Pentyrch, am 2:30yp, 7 Mawrth.

Noddwyr y gêm yw Clwb y Dwrlyn i gydnabod manteision y berthynas arbennig rhyngddom â'r clwb.

Mae croeso i chi ddod i gefnogi’r clwb ac i ymuno i fwynhau’r lluniaeth ar ôl y gêm tua 4:15yp.

# PONTYPRIDD

**Gohebwyr:**
**Siân a Mike Ebbsworth**






*Capel Cwm Rhondda.*

## Capel Cwm Rhondda.

Cafodd y capel gryn dipyn o sylw yn y wasg a'r cyfryngau yn ddiweddar. Dyma ble perfformiwyd un o'n hemyn-donau enwocaf am y tro cyntaf yn 1907 i gyfeiliant y cyfansoddwr John Hughes, ac sydd felly yn lleoliad hynod bwysig yn hanes anghydffurfiaeth a diwylliant Cymru. Wedi ymdrech aruthrol nifer fawr o bobl o bell ac agos, fe lwyddwyd i godi'r arian i brynu'r adeilad. Rhian Hopkins fu'n arwain yr ymgyrch. Cafodd ei magu yn Nhrehopcyn, ac aeth yn ferch fach i'r ysgol Sul yno. Megis dechrau mae'r project ac fe fydd angen buddsoddi oddeutu £200,000 i wireddu'r freuddwyd ac agor y capel yn ganolfan i ymwelwyr a gweithgareddau cymunedol. Daeth Mark Drakeford, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg i'r capel ynghyd â nifer o bobl leol i wrando ar aelodau Côr Meibion Pontypridd yn canu'r emyn. Sicrhawyd £10,000 ychwanegol i'r fenter drwy gynllun 'Perthyn LLywodraeth Cymru'.

**Merched y Wawr.**

Codwyd y to yng Nghlwb y Bont ar nos Iau Chwefror 12fed, pan gyflwynodd Côr Dysgwyr y Cymoedd chwip o gyngerdd i aelodau'r gangen. O dan arweiniad ysbrydoledig Elwyn Hughes a chyfeiliant medrus Bethan Roberts, fe gyflwynodd y côr raglen amrywiol o ganeuon cyfarwydd a gwreiddiol gydag afiaith a brwdfrydedd heintus. Does ryfedd iddyn nhw ennill cystadleuaeth Côr y Dysgwyr ddwy flynedd yn olynol!




*Côr Dysgwyr y Cymoedd*

Mae'r côr yn awyddus iawn i wahodd aelodau newydd wrth iddynt ddechrau paratoi i gystadlu unwaith eto yn Eisteddfod Genedlaethol y Garreg Las ym mis Awst. Os ydech chi'n siaradwr newydd neu'n adnabod rhywun sy'n dysgu, beth amdani? Cysylltwch drwy ebost: cordysgwyr@hotmail.com  Maent yn ymarfer bob nos Iau rhwng 6.30 a 7.30 yh yn Amgueddfa Pontypridd.

*Parhad ar dudalen 11*

## Pontypridd
(parhad)

**Na, nid byntin sydd ar weill y gangen y tro hyn, ond blodau!**



Mae pawb yn brysur yn gwau ac yn crosio blodau pinc fel rhan o apêl cenedlaethol y Llywydd, Bethan Picton Davies, i godi ymwybyddiaeth ac arian at Ymchwil Canser Cymru. Y nod yw creu dwy ffrog fydd yn cael eu harddangos yn Sioe Llanelwedd ym mis Gorffennaf.

Bydd y gangen yn cyd-swpera i ddathlu Gŵyl Dewi ar nos Iau Mawrth 12fed ym mwyty'r Blueberry.

**Clwb Llyfrau**

Bydd y grŵp yn cyfarfod fore Mercher Mawrth 18fed am 10.30 yb yn Llyfrgell Pontypridd.

**Llongyfarchiadau**

Estynwn ein dymuniadau gorau i Rhuanedd Richards a Stephen Fairclogh wrth iddynt ddathlu eu priodas arian. Gobeithio i chi fwynhau eich gwyliau arbennig.

**Swydd Newydd**

Llongyfarchiadau mawr i'r newyddiadurwr Alun Thomas ar ei benodiad yn gyflwynydd newydd 'Post Prynhawn'. Mae Alun yn llais cyfarwydd iawn i wrandawyr Radio Cymru. Mae Nia Thomas yn parhau i gyflwyno ar ddydd Llun, ac Alun yn cymeryd yr awenau o ddydd Mawrth i Wener. Pob dymuniad da i ti Alun.

**Cydymdeimlo.**

Estynwn ein cydymdeimlad â Menna Lewis wedi iddi golli modryb yn ddiweddar. Cofion atoch fel teulu.

## CLWB RYGBI PONTYPRIDD

Guto Davies

### "IEST IS BEST"



*Iestyn - un o fois y Rhondda*

Mewn cyfnod pan fu carfan Pontypridd yn dioddef nifer fawr o anafiadau, roedd gofyn i rai chwaraewyr profiadol gamu i'r adwy i gynnig arweiniad ac i berfformio'n gyson dda. Yn flaenllaw yn hyn o beth yn sicr oedd y blaen-asgellwr neu'r wythwr Iestyn Harris.

Yn y fuddugoliaeth gartref yn erbyn Bargoed ddiwedd mis Ionawr, Iestyn oedd derbynydd tlŵs y 'Golden Bob' - grogg euraid ar ffurf y cyn-chwaraewr eiconig Bob Penberthy - a benodwyd gan y noddwyr (gweler y llun).

Yn yr ornest ddigyfaddawd oddi cartref yn erbyn Trecelyn bythefnos yn ddiweddarach, Iestyn unwaith eto oedd dewis y cefnogwyr fel seren y gêm. Brwydrodd Ponty i sicrhau buddugoliaeth pwynt-bonws werthfawr ar faes lleidiog Trecelyn ac roedd Iestyn Harris yn allweddol gyda'i waith caled yn cario'r bêl dros y llinell fantais ac yn taclo popeth oedd yn symud i'w gyfeiriad.

Un o 'fois y Rhondda' yw Iestyn, yn hannu o Wattstown, a daeth i'r amlwg fel bachwr i Academi rhanbarth Caerdydd gan ennill capiau dros Gymru dan-ugain. Ar ộl graddio i garfan gyntaf Caerdydd yn 2022, symudodd Iestyn i Loegr i chwarae i dîm llwyddiannus Exeter Chiefs ond gorfodwyd iddo ymddeol yn gynnar oherwydd problemau meddygol parhaus gyda'i gefn.

Gyda'i amser fel chwaraewr yn ymddangos ar ben, yn 2024 ymunodd Iestyn ậ chlwb Pontypridd fel hyfforddwr cynorthwyol, ond yn ystod yr haf diwethaf, wedi derbyn cyngor meddygol, penderfynodd ail-gychwyn ei yrfa, gan symud o'r rheng flaen i'r rheng ộl. Mae ei berfformiadau ers hynny wedi bod yn gyson o'r safon orau, yn profi ei hun fel chwaraewr deinamig a deallus, yn gaffaeliad mawr i garfan Ponty tra'n parhau i gyfrannu fel hyfforddwr.

### Hwyl fawr am y tro!

Wedi 40 mlynedd o ddiddanu plant Cymru, mae Martyn Geraint wedi penderfynu rhoi'r gwn dŵr yn y to! Roedd Martyn yn aelod o grwpiau pop Treiglad Pherffaith a Ffenestri yn yr 80au ac mae sawl un ohonom o oedran arbennig yn cofio dawnsio i'w cerddoriaeth nhw mewn neuaddau ledled y wlad. Ond, fel meistr y sioeau a rhaglenni plant yr ydym yn meddwl amdano'n bennaf. Ryden ni rieni, plant ac wyrion ac wyresau yn medru canu'r 'hits' a gwneud y mŵfs i gyd! Dymuniadau gorau i ti ar y daith nesaf Martyn, a chofia – paid mynd o dan draed Bethan! Awê i'r cwrs golff 'na!

**Gohebydd mis Ebrill fydd Menna Lewis.**




# Hanes streic rheilffordd y Taff Vale 1900

## GWERS I NI HEDDIW ?

Fel un fu'n weithiwr cynnal a chadw ar y rheilffyrdd, "yr heol dragwyddol", am yn agos i ddeugain mlynedd, ac fel aelod selog o undeb yr NUR / RMT, roeddwn yn ymwybodol o arwyddocad streic hanesyddol a ddigwyddodd o fewn dalgylch papur Tafod Elái yn negawd gyntaf yr ugeinfed ganrif – Streic Rheilffordd y Taff Vale. Daeth y streic i enwogrwydd ledled Prydain a thu hwnt oherwydd yr oblygiadau cyfreithiol a'r gwelliannau a sicrhawyd i'r dosbarth gweithiol yn ei sgîl.

Sefydlwyd Rheilffordd Taff Vale ym 1836 i gysylltu cymoedd Taf, Cynon a Rhondda gyda phorthladd Caerdydd er mwyn cludo'r glo a'r haearn gynhyrchwyd yno i'w allforio, hefyd i gludo teithwyr o'r cymoedd tua'r ddinas, gyda gorsaf Pontypridd yn ganolbwynt i'r rhwydwaith. Ym merw'r chwyldro diwydiannol, roedd anghydfod a gwrthdaro rhwng y glowyr a'r gweithwyr haearn a'u meistri yn gyffredin, a gyda throad yr ugeinfed ganrif lledodd y cythrwfl i'r diwydiant rheilffyrdd.

Yn y 1890au penodwyd dau uwch-swyddog gan Reilffordd y Taff Vale oedd yn ffyrnig yn erbyn yr undebaeth lafur newydd, sef Amman Beasley a R Vassall, gyda'r olaf yn disgrifio undeb y gweithwyr rheilffyrdd - Amalgamated Society of Railway Servants - fel "a very pernicious body" gan wrthod cynnal unrhyw drafodaethau rhyngddynt. Pan lwyddodd y glowyr i ennill codiad cyflog, wrth i gynhyrchiant godi i ateb gofynion Rhyfel y Boer, ni chynigiwyd dim tebyg i'r gweithwyr rheilffyrdd oedd yn cludo'r glo. Aeth yr ASRS ati i ymgyrchu dros streic.

Ffigwr allweddol yn yr hyn ddatblygodd oedd y signalydd J Ewington o Abercynon, a gosbwyd am ei weithgaredd undebol drwy ei symud o flwch signal Pontcynon i Dreherbert bell. Daeth ei achos yn un blaenllaw, ac wedi cyfarfod o 1,300 o weithwyr rheilffordd ym Mhontypridd, galwyd streic ar y 19eg o Awst 1900. Roedd y picedu yn effeithiol a'r 'aur du' heb ei symud tua'r porthladdoedd, ar gost enfawr i'r cwmni ond heb effaith ar styfnigrwydd Amman Beasley.

Aeth y streic yn ei blaen er i'r Bwrdd Masnach yn Llundain ymyrryd ac i Fwrdd Cymodi swyddogol gael ei benodi, cyn dod i ben wedi pedwar mis, ac aed a'r ASRS i gyfraith i hawlio ei holl asedau ariannol. Er y golled, aeth yr ymgyrch yn ei blaen, gyda chefnogaeth y Blaid Lafur Annibynnol newydd a welodd dwf sylweddol yn ei phoblogrwydd yn sgîl y streic, ac ym 1906 llwyddodd yr aelod seneddol blaengar Keir Hardie i lywio'r 'Trades Disputes Bill' drwy'r senedd gan wyrdroi holl effeithiau anghydfod Rheilffordd Taff Vale. Yn ộl un cymal o'r ddeddf – "ni chaiff gweithred yn erbyn undeb llafur ei goddef mewn unrhyw lys barn."


STRIKE !

ON THE

Taff Vale Railway.

Men's Headquarters,
Cobourn Street,
Cathays.

There has been a strike on the Taff Vale Railway since Monday last. The Management are using every means to decoy men here who they employ for the purpose of black-legging the men on strike.

Drivers, Firemen, Guards, Brakesmen, and SIGNALMEN, are all out.

Are you willing to be known as a

Blackleg ?

If you accept employment on the Taff Vale, that is what you will be known by. On arriving at Cardiff, call at the above address, where you can get information and assistance.

RICHARD BELL,
General Secretary.

Roedd y ddeddfwriaeth yn un bellgyrhaeddol, yn fuddugoliaeth sylweddol i'r undebau llafur ymhell tu hwnt i gymoedd Rhondda Cynon Taf. Fel y dywedodd y diweddar Bob Crow, Ysgrifennydd Cyffredinol yr RMT wrth ddathlu can mlwyddiant streic Taff Vale: "Roedd ein cyndeidiau wedi herio'u cyflogwyr a'u deddfau anghyfiawn. Ymladdwyd brwydrau mawr gan yr undebau llafur... Roedd y digwyddiadau o gylch anghydfod Taff Vale yn foment allweddol yn hanes ein hundeb a'r mudiad llafur ehangach." Yn yr oes sydd ohoni, gydag hyrwyddiant polisïau asgell dde, gwrth-undebol, gwir y gair heddiw fel ym 1900 – "Mewn Undeb Mae Nerth."

Guto Davies

# EFAIL ISAF

**Gohebydd Lleol:**
**Geraint Rees**

**Hwyl y gwyliau**

Dros wyliau'r hanner tymor bu Heledd Hughes yn brysur iawn yn trefnu gweithgareddau i blant a'u teuluoedd yn y capel a'r gymuned.
Cafwyd hwyl anferthol yng Nghanolfan Capel y Tabernacl gyda gweithdai creu sleim, creu porthwyr adar, celf a dylunio, a gweithdy hau hadau ar gyfer yr ardd gymunedol. Dysgodd nifer dda o blant (a'u rhieni) sut i ofalu am blanhigion, faint o greadigrwydd sy'n bosibl gyda phapur, paent a darn o gardfwrdd, a hefyd sut i ofalu am natur yn ystod cyfnod y gaeaf. Diolch i bawb a ddaeth i'r gweithdai, ac hefyd diolch i Heledd, Mike, David, Pens ac Edwin am rannu eu harbenigedd gyda'r criw. Bydd mwy o weithdai i blant yn ystod Gwyliau'r Pasg.

**Teulu Twm yn 40-ish**

Anodd credu pa mor gyflym y mae'r blynyddoedd yn hedfan. A hithau'n 40 blynedd ers sefydlu'r grŵp a enwyd ar ôl cwrcyn Ann ac Eirian yn 1985/86, mae Heledd, Lyn West a Nia Donnelly wedi mynd ati i drefnu aduniad, gyda gweithgareddau yn ystod Sadwrn, Ebrill 25ain. Os oeddech chi neu eich plant yn aelodau dros y blynyddoedd, ewch i Eventbrite.com i sichrau eich tocyn ar gyfer yr achlysur yn Neuadd y Pentref. I'r rhai o'r gorffennol, bydd y cyfan yn cychwyn am 7 o'r gloch, ond bydd gweithgareddau i'r genhedlaeth ifanc yn ystod y prynhawn. Yn Eventbrite, chwiliwch am weithgaredd Teulu Twm i gael eich tocyn ar gyfer nos Sadwrn.

**Yr wythnosau nesaf yn y Tabernacl (am 11 y bore..... heblaw am y trydydd Sul)**

**Mawrth 1af**, Dathlu Gŵyl Ddewi

**8fed** Aled Edwards

**15fed** Lowri a Dafydd Roberts yn cynnal sesiwn i bob oed yn y prynhawn

**22ain** Iwan Rowlands gyda chinio yn y neuadd i ddilyn

**29ain** Casi Jones, Bangor

**Ebrill 5ed** Geraint Rees

**12fed** Aled Edwards



*Garddio*



# O DAN YR WYNEB Martin Huws

**Martin Huws sy'n holi'r cartwnydd a'r awdur, Huw Aaron, yr un cynta i gael ei enwebu ar gyfer dwy adran Gwobr Llyfrau Plant Waterstones, am ei gyfrol Gymraeg, *Y Tylwyth Annheg*.**




*Huw Aaron*

**Beth yw eich gwaith?**

Dwi'n gartwnydd, yn awdur a darlunydd llyfrau, llyfrau plant yn bennaf.

**Pa waith arall ydych chi'n wneud neu wedi ei wneud?**

Fe fues i'n gyfrifydd gweddol anobeithiol am rai blynyddoedd cyn i mi gael breuddwyd, bod y cartŵns bach o'n i'n dwdlo ar ymylon adroddiadau cyllid yn gallu bod yn sail i yrfa wahanol.

**O ble rydych chi'n dod? Ble rydych chi'n byw?**

Dwi wedi byw yng Nghaerdydd ers dros hanner fy mywyd ond fel un yn wreiddiol o Abertawe, Jac fydda i am byth! Erbyn hyn, dwi wedi setlo yn Yr Eglwys Newydd gyda Luned fy ngwraig, Eos ac Olwen. A Smwt y gath yn tra-arglwyddiaethu arnon ni gyd!

**Pwy oedd a phwy yw'r dylanwadau mwya arnoch chi?**

Fy rhieni, fy ngwraig a fy mhlant.

**O ble daeth y syniad am y gyfrol? O ble mae syniadau'n dod?**

Braslunio yn yr ardd, a dychmygu byd o bobol bach fyddai'n byw a bod ymysg y planhigion a'r blodau a'r trychfilod bach. Es i ati wedyn i greu llyfr ar ffurf comic, nofel graffig, am fywyd anarchaidd rhai o'r tylwyth teg ANNHEG.

**Beth oedd eich hoff lyfrau pan oeddech chi'n blentyn?**

O'n i'n ddarllenydd mawr ac felly mae'n anodd dewis un neu ddau ond, o ran y comics, rhai amlwg o'dd *Asterix*, *Tintin* a *Calvin and Hobbes*, ffefryn o hyd. Nôl yn yr wythdegau a'r nawdegau roedd yna ddigon o gomics yn y Gymraeg hefyd, *Sboncyn*, *Hebog*, ac un o'n i'n hoff iawn ohono fe, Ambarél, gan yr athrylith Jac Jones a Cen Williams. Jac o'dd arlunydd pwysica a mwyaf blaenllaw Cymru.

**Oes gennych chi rwtîn?**

Dwi'n trio mynd ati wedi'r school run a'r coffi cynta (cyn sawl un yn ystod y dydd) i gyflawni tasg benodol, boed sgrifennu neu ddarlunio. Ond, yn anffodus, mwya tynn yw'r dedlein, mwya o syniadau creadigol eraill, mwy diddorol, sy'n dod i'r meddwl. Dwi wedi dysgu erbyn hyn i roi sylw i'r rhain, eu nodi yn y fan a'r lle, er mwyn gallu dod nôl atyn nhw eto ar adeg fwy cyfleus. Dros y ddegawd ddwetha, dyma le ddechreuodd nifer fawr o'r llyfrau dwi wedi eu creu.

**Beth yw eich barn am lyfrau plant yn Gymraeg?**

Fy marn am lyfrau plant yn Gymraeg yw'r un am lyfrau plant yn Saesneg: maen nhw'n cystadlu yn erbyn 'tswnami adloniant' ar gyfryngau electronig amgen, ac, yn amlach na pheidio, yn cael eu diystyru, eu hamddifadu a'u hesgeuluso gan ysgolion, athrawon a rhieni. Ry'n ni gyd fel cymdeithas yn euog ac mae'r argyfwng llythrennedd sy'n wynebu'r genhedlaeth newydd yn gywilydd.

Er mwyn darganfod ateb i'r broblem, fe geiff miloedd o bunno'dd, dwi'n siwr, eu gwario ar bwyllgorau, arolygon, cynghorwyr addysgol, yr un hen siop siarad. Ond mae 'na ateb digon syml a llwyth o waith ymchwil eisoes yn ei gefnogi. Llai o sgrîns, mwy o lyfrau yn ein hysgolion a'n cartrefi.

Yn wyneb yr her, ein cyfrifioldeb ni, y rhai sy'n creu llyfrau plant, yw dal ati'n fwy nag erioed i sicrhau bod y llyfrau ry'n ni'n eu creu mor ddoniol, mor ddeniadol, mor gyffrous â phosib. Rhaid cofio hyn, efallai taw hwn yw'r unig lyfr y bydd plentyn yn rhoi cynnig arno, am wn i.

Gyda llaw, mae gan gomics a nofelau graffig rywfaint o fantais oherwydd mae'r ffurfiau'n gallu denu darllenwyr amharod/ail iaith drwy straeon mwy aeddfed a llawn heb i iaith eu llethu gormod.

**Pwy yw eich hoff gartwnydd? Pam?**

O Gymru, Jac Jones ac Elwyn Ioan. Tu hwnt i Gymru, Bill Watterson, Albert Uderzo, Jean-Jacques Sempe a nifer fawr sydd wedi rhoi pleser ac ysbrydoliaeth i mi dros y blynyddo'dd.

*Parhad ar dudalen 15*

## O Dan yr Wyneb
(parhad)

**Rydych chi wedi gweithio i'r *Spectator* a *Private Eye*. Sut mae'r gofynion yn wahanol?**

A bod yn onest, sdim gwahaniaeth. Bydd cartwnwyr yn cynnig yr un cartŵns i gylchgronau o wahanol fathau a dwi wedi gwneud i'r *Spectator* a'r *New Statesman* sydd ar begynau gwleidyddol gwahanol. Tra bod cartŵns golygyddol wedi'u lliwio gan safbwynt gwleidyddol, mwy o sylwebaeth gymdeithasol niwtral o'dd yn fy nghartŵns i.

**Ydy ennill gwobrau fel Tir na n-Og a Llyfr y Flwyddyn i Blant wedi gwneud gwahaniaeth?**

Mae'r gwobrau'n bwysig yng nghalendr cyhoeddi ond anaml mae'r cyfryngau'n trin llenyddiaeth plant fel maes pwysig. Eto mae'r gwobrau yma'n gyfle i roi sylw haeddiannol i lyfrau, awduron ac arlunwyr cyfoes.

Yn bersonol, wrth gwrs, mae enwebiad neu ennill gwobr yn hwb i awdur ac yn gyfle i gwrdd a chyd-ddathlu gydag eraill yn y maes.

**Beth sy' ar y gweill?**

Dwi newydd orffen llyfr i blant ifanc, *Monkeypig*, hynny yw *Mwncimochyn* yn y fersiwn Cymraeg, am fochyn mawr, pinc sy'n byw fel mwnci heb i'r mwncis eraill sylweddoli hynny. Hefyd mae dedlein yr ail yng nghyfres *Y Tylwyth Annheg* yn nesáu. Felly dyw'r pensiliau ddim yn segur!

Dolen Gwales:
https://www.gwales.com/bibliographic/?isbn=9781800997363&tsid=3
*Y Tylwyth Annheg,*
Gwasg y Lolfa, £10.99

**Yng Ngwobr Llyfrau Plant Waterstones fe gafodd Huw ei enwebu ar gyfer ei nofel graffig, Unfairies, yn yr adran darllenwyr iau a Sleep Tight, Disgusting Blob yn yr adran llyfrau wedi eu darlunio. Llongyfarchiadau iddo fe. Bydd seremoni wobrwyo gwobrau Waterstones yn cael ei chynnal ar Fawrth 26.**

# LLANTRISANT PONTYCLUN Y GROESFAEN

**Gohebydd y Mis:**
**Sara Davies**

## Hybu'r Gymraeg ym Mhatagonia

Roedd hi'n braf clywed y newyddion yn ddiweddar bod athrawes ifanc o Bontyclun wedi cael ei phenodi i swydd dysgu'r Gymraeg yn y Wladfa. Bydd Angharad Efa Davies, un o gyn-ddisgyblion Ysgol Gynradd Gymraeg Llantrisant, yn treulio'r deng mis nesaf yn gweithio dan nawdd y Cyngor Prydeinig i roi cefnogaeth i gymunedau sy'n siarad Cymraeg ym Mhatagonia.

Mae bron ugain mlynedd wedi mynd heibio ers sefydlu Cynllun yr Iaith Gymraeg nôl yn 1997. Yn ystod y cyfnod diweddaraf, bu prinder ceisiadau gan athrawon cymwysedig yn achos pryder, gyda'r Cyngor Prydeinig yn cydnabod ei fod wedi wynebu her recriwtio yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf. Eleni, camodd dwy athrawes ifanc i'r adwy, sef Angharad Efa a Megan Elis o Hen Golwyn.

Bydd yr athrawon yn gweithio mewn ysgolion, gyda phlant ac oedolion, yn yr ystafell ddosbarth ac hefyd yn y gymuned yn gyffredinol, er mwyn hybu'r Gymraeg yn y bröydd lle mae'r iaith yn cael ei siarad. Dywedodd Angharad ei bod hi'n awyddus iawn i ysbrydoli pobl i fwynhau'r Gymraeg a'i defnyddio yn eu bywydau bob dydd ac mewn gweithgareddau cymdeithasol. Bydd ei hoffter o gerddoriaeth a drama yn sicr yn gaffaeliad iddi gyflawni hynny.
Wrth sôn am ei hawydd i gyfrannu at lwyddiant y cynllun a thwf yr iaith yn gyffredinol, ychwanegodd Angharad, "Ro'n i wedi cael profiad uniongyrchol o ba mor anodd yw cynnal yr iaith mewn ardal lle mae pobl yn siarad Saesneg yn bennaf. Roedd hynny'n ysgogiad mawr i fi wneud y cais yn y man cyntaf".

Pob hwyl Angharad. Gobeithio y cawn glywed am dy brofiadau yn Y Wladfa, maes o law.


## Digwyddiadau yn Llantrisant

**Gorymdaith Dydd Gŵyl Dewi**

Ymunwch â ni ar yr orymdaith gyntaf erioed trwy dref Llantrisant i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi. Bydd yr orymdaith yn cychwyn am 10 y bore ar ddydd Sul Mawrth 1af ac fe'i harweinir trwy'r dref gan Y Fari Lwyd ac aelodau Clwb Gwerin Llantrisant.
Yn dilyn yr orymdaith bydd cyfle i fwynhau caneuon traddodiadol a barddoniaeth yn Neuadd y Dref. Dewch yn llu.

**Paned a sgwrs**

Cyfle i gwrdd yn wythnosol am goffi ac i ymarfer y Gymraeg yn anffurfiol (ar bob lefel) yn Neuadd y Dref, Llantrisant rhwng 10.30 a 12.30 ar foreau Sadwrn. Cynhelir y cyfarfod cyntaf ar y 7fed o Fawrth 2026. Croeso cynnes iawn i bawb, yn ddysgwyr neu'n siaradwyr rhugl.



# PENTYRCH

**Gohebydd y Mis:**
**Eleri Jones**

**Merched y Wawr**

Cynhaliwyd cyfarfod cynta'r flwyddyn fel arfer yng Nhlwb Rygbi Pentyrch, a braf oedd croesawu tair o'n haelodau, Olwen Jones, Rhian Ayres a Carys Davies i sôn am y gwaith gwirfoddol clodwiw a wneir ganddynt. Soniodd Olwen sy'n gyn-ymwelydd iechyd am ei gwaith yn gwirfoddoli gyda Banc Babanod Cwtch yn Ffynnon Taf. Soniodd Rhian am ei gwaith fel rhan o'r tîm yng Nghapel y Tabernacl Efail Isaf, dan arweiniad ac arbenigedd John Llew, sy'n cefnogi elusennau lleol fel llochesi i ferched ac unigolion sy'n gadael gofal i sefydlu eu cartrefi'u hunain. Mae'r Tabernacl yn cydweithio gyda Chapel Carmel Blaenllechau, a soniodd Carys am y gwaith arbennig a wneir yma gan wirfoddolwyr, a hithau'n cydlynu rhwng y ddau gapel.

Diolchwyd i'r tair am ein goleuo am y sefyllfa druenus sy'n bodoli ar garreg ein drws ac am y gwaith gwirfoddol gwerthfawr a wneir ganddynt er mwyn gwneud gwahaniaeth yn y gymuned.

**Dymuniadau gorau**

Danfonwn ein cofion at rai o drigolion y pentref sydd wedi bod yn ddibynnol ar y Gwasanaeth Iechyd yn ddiweddar. Ein dymuniadau gorau i Ann Dwynwen Davies, Eifion Glyn, Dewi Hughes a Gwilym Williams.

**Tua'r gorllewin**

Pob dymuniad da i Bronwen Morris sy'n symud o Droed y Garth ac yn bwriadu ymgartrefu yng Nghaerfyrddin. Bydd Nia a'r teulu yn falch o gael mam-gu yn byw mor agos.



*Rhian Ayres, Olwen Jones, a Carys Davies*

**Clwb y Dwrlyn**

Noson 'Fy Nhrysor/Ardal i' oedd cyfarfod mis Chwefror a chafwyd cyfraniadau gan Rowland Wynne, Glenys Roberts a Carys Tudor.

Dangosodd Rowland Wynne luniau i ni o lythyron a dderbyniodd ei deulu o'r Almaen adeg y rhyfel yn diolch am barseli bwyd – llythyron oedd yn rhoi darlun trawiadol i ni o amodau byw yn y wlad yr adeg honno.

Trwy gyfrwng dau lun pwysig, un yn anrheg priodas i'w rhieni a'r llall o waith ei thad, aeth Glenys â ni i ardaloedd Glyn Ceiriog ac Ynys Môn gan sôn am fwrlwm gweithgarwch yr ardaloedd hynny yn ystod cyfnod ei magwraeth.

Un o ardal Treffynnon yw Carys a chawsom ganddi hanes y frwydr i sefydlu addysg Gymraeg yn yr ardal ac ymdrechion ei rhieni yn y dyddiau cynnar hynny. Erbyn hyn mae twf aruthrol wedi digwydd sy'n glod i'r rhai fu'n brwydro i gadw'r fflam ynghyn dan amodau digon heriol.



*Carys Tudor, Rowland Wynne a Glenys Roberts*

## Cofio Ken



Daeth torf deilwng i Amlosgfa Thornhill i wasanaeth coffa Ken Evans, Maes y Sarn. Roedd e a'i wraig Judith ymysg hoelion wyth bywyd Cymraeg y pentre ar ôl byw yma am dros 50 mlynedd.

Un o fechygyn Porth Tywyn ger Llanelli oedd Ken, ac ar ôl dyddiau ysgol, aeth i Goleg Prifysgol Abertawe a graddio mewn ffiseg. Maes o law, trodd i fyd gweinyddol addysg uwch gan ennill gradd MA. Ymddeolodd fel dirprwy gofrestrydd Prifysgol Met Caerdydd yn 2005.

Ken oedd un o sefydlwyr Clwb y Dwrlyn ddiwedd y 70au, gan ddod yn un o gadeiryddion cyntaf y gymdeithas ddechrau'r 80au. Bu'n gefnogwr a chyfrannwr selog i'r Clwb. Roedd hefyd yn driw iawn i Gymdeithas Wyddonol Caerdydd o'r cychwyn, gan fynychu'r cyfarfodydd yn rheolaidd.

Talodd Alun deyrnged deimladwy i'w dad, ac yn ei deyrnged yntau i'w gyd-ddisgybl yn Ysgol Ramadeg Llanelli, soniodd Rowland Wynne amdano fel ysgrifennydd tîm rygbi'r ysgol. Fe oedd yr ysgrifennydd yn y flwyddyn pan enillodd y tîm gystadleuaeth saith bob ochr ysgolion bonedd Prydain gyda Brian (Davies) yn gapten.

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â Judith, Alun a'r teulu.

## MENTER CAERDYDD

Rachel Matthews

**Ffitrwydd gyda Ffrindiau 75+**

Ydych chi dros 75 oed ac yn awyddus i gadw'n heini? Mae grŵp yn cwrdd yn y Ganolfan Chwaraeon Genedlaethol yng Ngerddi Soffia bob yn ail ddydd Gwener dan ofal yr hyfforddwraig ffitrwydd Anna Reich. Mae croeso i bawb ond rhaid cofrestru o flaen llaw gyda'n partneriaid, Re-engage. Am ragor o fanylion, cysylltwch â Rachel.

**Siaradwyr Newydd:**
**Cymru'r Oesoedd Canol ar Zoom (4 sesiwn, £20)**

Bydd ein cwrs hanes diweddaraf yn dechrau nos Lun, 9 Mawrth gyda'r sesiynau wedi'u teilwra ar gyfer siaradwyr newydd lefel Canolradd ac Uwch. Mewn cyfres o 4 sesiwn, cawn fwrw golwg ar rai o ffigurau enwocaf Cymru'r Oesoedd Canol gan gynnwys Rhodri Mawr, Hywel Dda, Llywelyn ein Llyw Olaf ac Owain Glyndŵr. Byddwn yn recordio'r cyflwyniadau fel bod modd i chi ddal i fyny neu wrando eto.

**Bore i ddysgwyr yn Sain Ffagan**

Byddwn yn dysgu am hanes gwesty'r Vulcan ar fore Gwener, 13 Mawrth yng nghwmni Dysgu Cymraeg Caerdydd a swyddogion addysg yr Amgueddfa. Bydd cyfle am baned a sgwrs yn y caffi rhwng 10.00 ac 11.00 ac yna cawn ddysgu am hanes yr adeilad eiconig. Am hanner dydd awn draw i'r dafarn ei hun i fwynhau cwis ac i weld faint o'r ffeithiau y gallwch eu cofio!. Rhaid talu i barcio.

**Sgwrs y Mis ar Zoom**

Nos Fercher, 25 Mawrth, bydd Dewi Alter yn cyflwyno ei lyfr 'Cof Diwylliannol yng Nghymru'r Cyfnod Modern Cynnar'. Yn ystod y sgwrs, bydd yn trafod sut y cafodd hanes y Cymry ei ddefnyddio fel sail i hunaniaeth genedlaethol. Awgrymir cyfraniad o £5 y sgwrs neu £20 am holl sgyrsiau 2026.

**Teithiau Tywys**

Mae'r teithiau tywys yn llenwi'n gyflym felly cofiwch gofrestru ar y wefan os hoffech sicrhau eich lle. Dyma ddyddiadau'r ymweliadau nesaf:

**Bore Mawrth, 17 Mawrth** – Taith Feddylgarwch drwy orielau Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd

**Bore Mawrth, 21 Ebrill** – Cofio Tryweryn yng nghwmni Gwyn Roberts yn Sain Ffagan

**Bore Iau, 7 Mai** – Arddangosfa Gwen John: Hardd a Hynod – Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd

**Prynhawn Sadwrn, 6 Mehefin** – Crochendy Nantgarw (£15 – sgwrs, taith a phaned)

**Grwpiau sgwrsio**

Mae'r grwpiau sgwrsio yn mynd o nerth i nerth gyda wynebau newydd yn ymuno'n rheolaidd. Dyma'r dyddiadau ar gyfer cyfarfodydd mis Mawrth. Mae croeso i bawb sy'n siarad Cymraeg beth bynnag eich lefel.

**Hyb Llaneirwg**
bob yn ail fore Mawrth am 10.30 – 10 + 24 Mawrth

**Hyb Radyr**
bob yn ail brynhawn Mercher am 2.00 – 11 + 25 Mawrth

**Hyb Rhydypennau**
bob yn ail fore Iau am 10.30 – 12 + 26 Mawrth

**Hyb Rhiwbeina**
bore Gwener am 10.30 (Mynediad a Sylfaen) 13 + 27 Mawrth

**Hyb Y Llyfrgell Ganolog**
bob prynhawn Iau am 3.00.

**Gweithgareddau i blant, pobl ifainc a theuluoedd**

Mae'r arlwy yn parhau yn ystod y tymor ysgol gyda sesiynau Amser Stori, y Clwb Gwyddbwyll a'r gweithgareddau gwyddoniaeth ymhlith y rhai mwyaf poblogaidd. Cadwch lygad ar y wefan i gael y wybodaeth ddiweddaraf.

**Oedolion**: https://mentercaerdydd.cymru/cy/oedolion

**Plant a Phobl Ifainc:**
https://mentercaerdydd.cymru/cy/plant-a-phobl-ifanc

**Rhiant a Phlentyn:** https://mentercaerdydd.cymru/cy/rhiant-a-phlentyn

**Gwefan:** mentercaerdydd.cymru
**Facebook:** @m.caerdydd
**Instagram:** @mentercaerdydd
**E-bost / Ffôn:** post@mentercaerdydd.cymru
029 2068 9888




# CREIGIAU

**Gohebwyr:**
**Nia Williams a Teleri Jones**

## Llongyfarchiadau dwbwl i'r Honeybuns

Llongyfarchiadau mawr i Llinos Honeybun sydd wedi cwblhau ei Doethuriaeth yn Ysgol y Gwyddorau Biolegol ym Mhrifysgol Caerdydd . Roedd ei gwaith ymchwil yn canolbwyntio ar ddod o hyd i driniaethau newydd ar gyfer clefyd prin iawn sy'n effeithio ar blant, o'r enw clefyd CLN3.



*Llinos Honeybun*

Mae clefyd CLN3 yn achosi colli golwg a dirywiad yn yr ymennydd mewn plant o tua 5 oed ymlaen. Yn anffodus, nid oes modd ei wella ar hyn o bryd. Nod prosiect Llinos oedd helpu gwyddonwyr i ddeall y clefyd yn well ac i chwilio am feddyginiaethau posibl a allai wneud gwahaniaeth yn y dyfodol.

Fe wnaeth ei PhD drwy gyfrwng y Gymraeg. Fel rhan o'r gwaith, treuliodd Llinos dri mis mewn canolfan arbenigol yn Vancouver, Canada. Yno, defnyddiodd brawf gwyddonol yr oedd hi ei hun wedi'i ddatblygu yn ystod ei hastudiaethau i wirio miloedd o gyffuriau gwahanol, i weld a allai unrhyw un ohonynt helpu i drin y clefyd. Gwych iawn.


Mae Llinos nawr yn gweithio fel gwyddonydd ymchwil ym Mhrifysgol Caerdydd.

Llongyfarchiadau hefyd i'w brawd Emyr a'i wraig Hannah ar enedigaeth merch fach arall, Awen Heather, chwaer fach i Lowri.

Pob dymuniad da i'r teulu sy'n byw mas yn Vancouver.



*Awen Heather*






# Ysgol Gynradd Gymraeg Castellau

**Croesawu disgyblion newydd**

Rydyn ni wedi dechrau'r flwyddyn gan groesawu 15 o ddisgyblion cyn-feithrin i'n Hadran Dan 5. Mae nifer helaeth eisoes wedi bod yn mynychu Cylch Meithrin Beddau ar ein safle ac wedi setlo'n wych. Os yw eich plentyn yn troi'n 3 rhwng Ionawr a Mawrth y 31ain, rydyn ni hefyd yn croesawu disgyblion Cyn-Feithrin ar ôl y Gwyliau Pasg. Cysylltwch â'r ysgol am fwy o wybodaeth.



*Croesawu Cyn-Feithrin*

**Chwaraeon**

Mae nifer o ddisgyblion wedi cynrychioli'r ysgol mewn twrnamentau rygbi a phêl-rwyd - da iawn chi.

**Pob Lwc**

Hoffem ddymuno pob lwc a llongyfarchiadau i Lillie o Flwyddyn 5 sydd wedi ennill y Dawns Unigol mewn unrhyw arddull Bl. 6 ac Iau yn yr Eisteddfod Ddawns ac yn cynrychioli'r rhanbarth a'r ysgol yn Ynys Môn.




*Pêl-Rwyd Merched*

**Eisteddfod Ysgol a Chylch**

Rydyn ni'n gyffrous i weld pwy o Flwyddyn 6 fydd yn ennill y Gadair yn Eisteddfod yr Ysgol eleni ddydd Gwener. Rydyn ni hefyd yn dymuno pob lwc i'r disgyblion sydd yn cynrychioli'r ysgol yn Eisteddfod Gylch y rhanbarth.

**Blwyddyn 6 wedi joio Glan-Llyn**

Cafodd Blwyddyn 6 amser anhygoel yng Nglan-Llyn yn yr eira eto eleni a hoffem ddiolch i'r staff am eu croeso.



*Blwyddyn 6 yng Nglanllyn*

# Ysgol Garth Olwg

**Eisteddfod yr Ysgol**
Cafwyd diwrnod gwych cyn yr hanner tymor i ddathlu ein diwylliant yn ein Heisteddfod Ysgol. Da iawn i bob disgybl o'r ysgol gyfan a wnaeth fentro ar y llwyfan sydd ddim yn beth hawdd o flaen 700 o ddisgyblion!
Llongyfarchiadau i Mari Roberts, Manon Thompson ac Elen Ashcroft-Young am gael eu cadeirio fel prifeirdd yr Eisteddfod. Clydach oedd y llys buddugol eleni ac edrychwn ymlaen at weld pwy sy'n llwyddo i guro'r Mabolgampau!

**Siarad Cyhoeddus.**
Llongyfarchiadau i dîm Siarad Cyhoeddus Cymraeg Blwyddyn 9 yr ysgol am ennill cystadleuaeth dadlau'r Rhwydwaith Seren. Byddant yn mynd ymlaen i'r rownd nesaf yn Rhydychen ym mis Mawrth.

**Dydd Miwsig Cymru**
Dathlodd Ysgol Garth Olwg Dydd Miwsig Cymru gyda gwledd o gerddoriaeth. Gwnaeth Lan Star a Rhyddid gig i'r Ysgol Isaf a chafwyd hefyd gig gan Iestyn Gwyn Jones a'i fand i Flwyddyn 7. Cynhaliwyd cwis er mwyn profi gwybodaeth y disgyblion o gerddoriaeth Gymraeg ac roedd cerddoriaeth Gymraeg i'w chlywed ar draws y coridorau.

**Taith Glan-llyn** Ychydig o wythnosau yn ôl, es i a rhan fwyaf o blant ym mlwyddyn 6 i Lan-llyn lan yng ngogledd Cymru am bum diwrnod am daith fach anturus. Cyrhaeddon ni a gwnaethon ni lawer o weithgareddau hwylus. Yn gyntaf, aethon ni gyd i nofio ac ar ôl hynny chwaraeon ni bingo ar y noson gyntaf. Ar y ail ddiwrnod, aethon ni i ganŵio ar lyn Tegid ac yna yfon ni siocled poeth ar yr ynys fach yng nghanol y llyn. Arhoson ni gyd mewn ystafelloedd hyfryd gydag ein ffrindiau ni ac oherwydd yr eira, cawson ni'r cyfle i greu dyn eira gyda'n gilydd. Ar y trydydd diwrnod, aethon ni i'r Bala sef tref fach hyfryd tua 20 munud o Lan-llyn. Ar y ffordd i'r Bala, gwelon ni gyd Llyn Tryweryn i ddysgu am hanes y llyn enfawr. Ar ôl dod nôl o'r daith fach gyffrous roedden ni gyd wedi blino ond wedi cael amser bythgofiadwy. *Gan Ffion Smith*

**Taith Sgïo**. Cafwyd wythnos gwerth chweil dros hanner tymor wrth i 80 o ddisgyblion sgïo ym Monte Cimone yn y Tuscan Apennines, yr Eidal. Roedd y disgyblion wedi dysgu nifer o sgiliau newydd wrth fwynhau ar y llethrau gydag ambell un yn cwympo mwy nag eraill! Efallai y gwelwn ambell un yn y Gemau Olympaidd Gaeaf nesaf!

**Cwis Dim Clem.**
Llongyfarchiadau i dîm Cwis Dim Clem Blwyddyn 6 am ennill y rownd rhanbarthol. Byddant yn mynd ymlaen i'r rownd nesaf ym mis Mawrth.



*Siarad Cyhoeddus*



*Glanllyn*



*Cadeirio*